Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Sharron Lusher
Pennaeth
Coleg Penfro
Pont Myrddin
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1SZ

Awst 2014

Annwyl Ms Lusher

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Penfro**

Yn dilyn yr ymweliad Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 23- 25 Mehefin 2014, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw.  Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Fe wnaeth Arolygwyr Ei Mawrhydi Liam Kealy, Sandra Barnard a Steve Bell arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau cynharach.

Cynhaliodd arolygwyr drafodaethau gyda'r pennaeth a'r uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol.  Fe wnaethant graffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol a mynd ar ddwy daith ddysgu.

Adroddodd arolygwyr eu canfyddiadau wrth bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

## 1 Deilliannau a safonau

Ers yr arolygiad o Goleg Penfro yn Chwefror 2011, mae'r coleg wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r pedwar argymhelliad a adawyd gan y tîm arolygu.  Mae'r coleg wedi bwrw ymlaen ag unrhyw faterion nad aethpwyd i'r afael â nhw a nodwyd ganddynt yn y cynllun gwella ansawdd.  Caiff y materion hyn eu hadolygu'n rheolaidd gydag uwch staff rheoli a rheolwyr maes cwricwlwm fel rhan o'r gweithdrefnau adolygu ansawdd.

Mae data cyrsiau ar gyfer 2012-2013 yn dangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ennill eu cymwysterau bron ym mhob maes pwnc sector. Roedd y gyfradd cyrhaeddiad gyffredinol yn cyd-fynd yn agos â'r cymharydd cenedlaethol, sef 93%. At ei gilydd, roedd cyfraddau cwblhau ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol (90% yn erbyn cymharydd cenedlaethol o 92%). Roedd cyfraddau cwblhau islaw 90% mewn 10 maes pwnc sector. Mae cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg wedi aros yn gyson, sef 83% am y tair blynedd diwethaf; fodd bynnag, fe wnaeth y cymharydd cenedlaethol wella dros yr un cyfnod i 84%. Cyfradd llwyddo bwysedig y coleg oedd 75%, sef tri phwynt canran islaw'r cyfartaledd ar gyfer y sector.

Roedd wyth deg chwech y cant o'r dysgwyr oedd wedi'u cofrestru yn y coleg yn dilyn cyrsiau hir yn 2012/2013 ac fe lwyddodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr i gwblhau eu hastudiaethau. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd cwblhau mewn ychydig llai na hanner o feysydd pwnc sector ac roedd islaw 90% mewn bron hanner y rhain. Fe wnaeth y coleg wella'i gyfradd cyrhaeddiad gyffredinol ar gyfer cyrsiau hir o ddau bwynt canran dros y cyfnod dwy flynedd. Llwyddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr (94%) ar gyrsiau hir i ennill eu cymhwyster yn 2012/2013. Roedd cyrhaeddiad islaw 90% mewn tri maes pwnc sector yn unig, gan effeithio ar 12% o ymrestriadau. Fe wnaeth y coleg wella cyrhaeddiad mewn 10 maes pwnc sector ac roedd ganddo un o'r cyfraddau cyrhaeddiad uchaf yn y sector am ei gyrsiau hir dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae tueddiadau tair blynedd mewn cyrhaeddiad wedi aros yn gyson rhwng 92% a 94%, ac mae cyfraddau cwblhau yn gyson neu'n codi ychydig bach rhwng 89% a 90%.

## 2 Medrau Hanfodol

Mae cyfraddau llwyddo mewn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru wedi gwella dros gyfnod o dair blynedd ac ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, ceir amrywiad sylweddol yn y cyfraddau llwyddo ar gyfer y gwahanol Fedrau Hanfodol. Roedd cyfraddau llwyddo mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu yn agos at y cymharydd cenedlaethol; fodd bynnag, roedd cyfraddau llwyddo'r pedwar cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n weddill ychydig islaw neu gryn dipyn islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Mae'r coleg wedi mynd i'r afael â'r amrywiad mewn cyfraddau llwyddo ar gyfer Medrau Hanfodol trwy ad-drefnu'r ffordd y cânt eu cyflwyno a dod â'i holl arbenigwyr medrau hanfodol at ei gilydd i greu un tîm. Bydd y tîm hwn yn gweithio gydag arbenigwyr pwnc i wneud yn siŵr bod addysgu medrau hanfodol yn cael ei roi yn ei gyd-destun yn y pynciau sy'n cael eu hastudio gan ddysgwyr. Mae'r coleg wedi defnyddio deilliannau asesiadau cychwynnol dysgwyr hefyd i roi dysgwyr mewn grwpiau yn ôl lefel yn eu maes pwnc i sicrhau eu bod yn cael eu haddysgu yn unol â'u lefel a'u hanghenion. Yn ychwanegol, mae'r coleg wedi cynyddu cyfnod tiwtorial ar gyfer dysgwyr hefyd i'w helpu i wella'u medrau allweddol ehangach. Bydd y coleg yn penodi tri aelod o staff amser llawn hefyd i roi rhagor o gymorth i ddysgwyr trwy gymorthfeydd a gweithdai un i un.

Mae'r coleg wedi rhoi strategaeth ar waith i gefnogi dysgwyr a'u helpu i gyflawni eu nodau. Mae wedi penodi anogwyr dysgu, wedi buddsoddi mewn gweithgareddau ymglymiad dysgwyr ac wedi trefnu cyrsiau rhagflas cyn cofrestru. O ganlyniad, mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n dda. Mae ganddynt

lawer o hyder y gall eu tiwtoriaid a'r anogwyr dysgu eu helpu i ddatrys unrhyw broblemau personol sy'n rhwystro'u dysgu. Mae dysgwyr yn ymwybodol iawn o'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael iddynt ddal i fyny ar unrhyw waith y maent yn ei golli trwy absenoldeb. Mae'r coleg wedi gwella'i gyfraddau cadw ar gyrsiau amser llawn gan 1.1% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd a chan 0.4% ar gyrsiau rhan-amser.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae gan y coleg raglen aeddfed ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu. Mae rheolwyr y cwricwlwm yn arsylwi staff yn rheolaidd ac yn llunio arsylwadau graddedig o addysgu a dysgu. Mae rheolwyr yn defnyddio'r canlyniadau yn effeithiol i lywio proses werthuso'r coleg, y rhaglen datblygu staff a systemau hunanarfarnu.

Mae rheolwyr a'r tîm arsylwi yn safoni eu harfarniadau. Fodd bynnag, nid yw'r coleg wedi ymestyn ei broses arsylwi a safoni eto i gynnwys partneriaid o golegau eraill i gael safoni ehangach, yn yr un modd ag y mae'n ei wneud yn ei gonsortiwm dysgu yn y gwaith.

Mae'r coleg yn defnyddio athrawon y mae eu dosbarthiadau'n 'Rhagorol' i rannu eu harfer dda gyda chydweithwyr mewn 'sesiynau dysgu agored'. Mae mentoriaid dysgu ac addysgu yn rhoi cymorth effeithiol i athrawon y nodwyd bod ganddynt feysydd i'w gwella yn eu harfer. O ganlyniad, mae'r coleg wedi cynyddu cyfran yr athrawon y dyfarnwyd eu bod yn 'dda neu'n well' mewn arsylwadau ystafell ddosbarth dros y tair blynedd diwethaf.

Mae anogwyr dysgu'n rhoi cymorth ychwanegol i ddysgwyr unigol. Maent yn rhan allweddol o strategaeth y coleg i gynyddu cyfraddau presenoldeb a chadw. Maent yn monitro presenoldeb dysgwyr ac yn darparu cymorth bugeiliol, tiwtorial neu gymorth dysgu yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn monitro nac yn arsylwi anogwyr dysgu fel rhan o'i raglen arsylwi addysgu.

## 4 Cwricwlwm

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad waith yn dda i gynllunio'r cwricwlwm. Mae uwch staff yn gwneud defnydd da o'r arsyllfa sgiliau dysgu cenedlaethol i deilwra'r cwricwlwm i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn yr ardal.

Mae gan y coleg gysylltiadau cryf iawn gydag ystod eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol. Mae staff y coleg yn cynnal cyfarfodydd a fforymau rheolaidd gyda chyflogwyr er mwyn eu cynnwys mewn cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm a thrafod eu hanghenion hyfforddi. Mae gan lawer o diwtoriaid y coleg gysylltiadau personol da gyda chyflogwyr ac mae hyn yn eu galluogi i geisio a sefydlu ystod eang o leoliadau gwaith. Mae gan reolwyr y cwricwlwm gysylltiadau da â diwydiannau allweddol yn yr ardal o ganlyniad, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r addysgu.

Mae staff yn trefnu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, fel cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau, ymweliadau â safleoedd hanesyddol a thai ffasiwn. Mae'r

coleg yn cynnal menter ‘What’s on Wednesday’ (WOW) hefyd sy’n cynnwys gweithgareddau a siaradwyr gwadd.  Mae’r digwyddiadau hyn yn cyfoethogi’r profiad dysgu ac yn ehangu gwybodaeth dysgwyr am y cwricwlwm, cyflogaeth a chyfleoedd mynediad i brifysgol, gan felly eu helpu i fynd ymlaen i’w dewis gyrfaoedd.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r coleg wedi cynnal y perfformiad da a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.  Mae wedi cynnal ei ddeilliannau ar gyfer prif gymwysterau ac mae ganddo drefniadau effeithiol i arfarnu’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac ansawdd ei ddarpariaeth ac i nodi meysydd i’w gwella.

Ers yr arolygiad yn 2011, mae’r coleg wedi penodi pennaeth newydd ac wedi lleihau maint ei uwch dîm arweinyddiaeth.  Mae’r coleg wedi lleihau ei gostau gweithredu i ail-leoli adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu a helpu dysgwyr i wella’u deilliannau.  Caiff y coleg ei arwain yn dda gan y pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a’r corff llywodraethol.  Mae ganddo gyfeiriad strategol clir.  Mae gan  staff ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau’r coleg.  Mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth drylwyr o natur economi Sir Benfro ac maent yn defnyddio hyn yn dda i gynllunio’r cwricwlwm.

Mae’r coleg wedi ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol hefyd ac wedi ad-drefnu strwythur ei gorff llywodraethol yn unol ag arweiniad cenedlaethol newydd.  Mae wedi creu bwrdd sy’n canolbwyntio ar fusnes a chyfeiriad strategol y coleg a chorff ymgynghorol sy’n galluogi’r coleg i ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid ynglŷn â’i gyfeiriad strategol a’i gwricwlwm.  Mae gan y bwrdd ddealltwriaeth dda o berfformiad y coleg ac mae’n gweithio’n briodol i ddadansoddi perfformiad ar lefel pwnc sector.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae gan y coleg weithdrefnau cadarn ar waith i fesur ei berfformiad ei hun a chefnogi gwelliant.  Mae adroddiad hunanasesu’r coleg yn fanwl ac yn defnyddio ystod dda o wybodaeth, gan gynnwys maes cwricwlwm unigol ac adroddiadau hunanasesu cyfadrannau.

O ganlyniad, mae gan arweinwyr meysydd y cwricwlwm amgyffrediad manwl o berfformiad yn eu meysydd.  Mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau’r coleg a’r meysydd i’w gwella.  Mae cynllun gwella ansawdd y coleg yn cynnwys ffocws cryf ar feysydd i’w gwella ac mae’n gwneud defnydd da o dargedau mesuradwy i fonitro ac arfarnu cynnydd.  Mae wedi nodi’r hyn y mae angen iddo’i wneud i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ac mae wedi rhoi ystod o strategaethau ar waith sydd wedi’u cynllunio i gyflawni hyn.

Yn nodedig, mae’r coleg wedi nodi bod cyfraddau presenoldeb a chwblhau dysgwyr yn feysydd allweddol i’w gwella.  Mae’r ffocws hwn yn amlwg ym mhob agwedd ar weithdrefnau ansawdd y coleg.  Mae corfforaeth y coleg yn dwyn uwch reolwyr a rheolwyr meysydd cwricwlwm i gyfrif am berfformiad y coleg ac yn eu herio i wella.

Mae staff ar bob lefel yn y coleg yn defnyddio data i fonitro perfformiad ac maent yn ymateb yn gyflym ac yn briodol pan fydd dangosyddion allweddol yn dangos

pryderon. Mae staff addysgu'n gweithio gyda'r pedwar anogwr dysgu i fonitro presenoldeb dysgwyr a rhoi cymorth yn ei le ar gyfer y rhai y mae eu presenoldeb yn dechrau gostwng. Mae cyfarfodydd cadw wythnosol yn monitro cyfraddau presenoldeb a chadw ar lefel coleg cyfan, maes cwricwlwm a chwrs, ac mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn ymwybodol o'u perfformiad presennol yn erbyn eu targedau. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o ran defnyddio anogwyr dysgu, mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb a chadw ond mae'n rhy gynnar i wybod beth fydd eu heffaith debygol lawn.

Mae'r coleg wrthi'n rhesymoli ei ddarpariaeth i leihau nifer y cyrsiau sydd â niferoedd isel iawn o ddysgwyr neu gyfraddau llwyddo gwael a pharatoi ar gyfer y newid i Raglenni Meysydd Dysgu. Mae uwch reolwyr yn seilio'u penderfyniadau ar strategaeth gytûn y coleg, gan ystyried gwybodaeth am y galw am gyrsiau a deilliannau cyrsiau llwyddiannus neu aflwyddiannus.

## 7 Partneriaethau

Mae'r coleg wedi meithrin cysylltiadau gweithio gyda Chyngor Sir Penfro er mwyn adolygu ac ad-drefnu dysgu ôl-16 yn Sir Benfro. Comisiynodd y ddau bartner adolygiad o ddysgu ôl-16 ac maent yn gweithio i roi ei argymhellion ar waith ar hyn o bryd. Maent wedi penodi rheolwr trawsnewid ar y cyd, sy'n gyfrifol am roi argymhellion yr adolygiad ar waith, a rheolwr ystadau. Mae gan y rheolwr ystadau gyfrifoldeb am ddatblygu ystâd y coleg a rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod lleol.

Mae'r cynllun yn cynnwys sefydlu un ganolfan chweched dosbarth yng ngogledd y sir, sydd wedi'i leoli ar dir y coleg, a chanolfan alwedigaethol yn ne'r sir. Yn ychwanegol, bydd yr holl gyllid ôl-16 yn cael ei gyfeirio trwy'r coleg, a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl ddysgu galwedigaethol 14-16 hefyd.

Mae'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer dysgu ôl-16 yn y sir wedi cael eu trafod gan gorff llywodraethol y coleg a chabinet yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau'n ddibynnol ar ddeilliannau ymgynghoriadau'r awdurdod lleol am ad-drefnu ysgolion. Felly, mae patrwm terfynol y ddarpariaeth ôl-16 yn parhau i fod yn ansicr.

Mae'r coleg yn cynyddu graddau'r cydweithio gyda phartneriaid addysg uwch hefyd i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ennill medrau lefel uwch. Mae'r coleg wedi ffurfio partneriaethau gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe, ac o fewn rhaglen Partneriaeth Medrau ehangach Colegau a Phrifysgolion (sy'n cynnwys ystod ehangach o sefydliadau addysg bellach gan gynnwys Grŵp Castell-nedd Port Talbot a Choleg Gŵyr Abertawe). Bwriad y rhain yw ymestyn y cwricwlwm a gynigir ar gyfer pynciau STEM, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cyflogi yn y sector ynni.

## 8 Llais y Dysgwr

Cwblhaodd bron i 1,400 o ddysgwyr arolwg llais y dysgwr yng Ngholeg Penfro. Roedd wyth deg y cant o ymatebwyr yn ystyried bod y coleg yn dda neu'n dda iawn, o gymharu â 77% yn genedlaethol. Roedd hyn chwe phwynt canran yn well na'r

flwyddyn flaenorol.  Yn yr un modd, roedd 87% ohonynt yn credu bod eu cwrs yn well na'r disgwyl, a oedd yn debyg i'r meincnod cenedlaethol (dim newid o'r flwyddyn flaenorol).

Fe wnaeth y coleg wella'i sgorau ar draws y pum thema o'r llynedd, ac roedd yn debyg i'r meincnod cenedlaethol, neu'n agos ato, ar bob un ohonynt – heblaw i 'wybodaeth a chyngor', lle'r oedd bedwar pwynt canran islaw'r meincnod cenedlaethol.

Roedd sylwadau dysgwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch perthnasoedd gyda staff, cymorth gan diwtoriaid ac agweddau cymdeithasol ar fywyd yn y coleg.  Mae dysgwyr yn awgrymu ystod o welliannau, y mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar fwyd a phrisiau yn y ffreutur, amserlennu, amseroedd bws, a datblygu mannau cysgodol i ysmygu.  Mae rhai myfyrwyr yn bryderus am fwlio, ymddygiad aflonyddgar a sŵn yn y mannau astudio.

Mae uwch reolwyr a chynrychiolwyr dysgwyr yn gwneud defnydd da o ganlyniadau llais y dysgwr i gynllunio gwelliannau.  Er enghraifft, o ganlyniad i bryderon dysgwyr am ymddygiad aflonyddgar, mae'r coleg wedi penodi swyddog disgyblu ac mae'n cynnwys dysgwyr mewn adolygu'r polisi disgyblu.  Mae dysgwyr yn defnyddio canlyniadau'r arolwg ar lefel cwrs i drafod gwelliannau gyda dysgwyr eraill a thiwtoriaid.

Mae cyngor y dysgwyr yn darparu llwyfan defnyddiol i drafod datblygiadau newydd gyda chynrychiolwyr dysgwyr, er mwyn i'r coleg allu trafod barn a theilwra datblygiadau newydd yn unol ag anghenion myfyrwyr.  Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn ymateb yn gadarnhaol i hyn.  Maent yn hyderus iawn bod y coleg yn ceisio gwella profiad y dysgwr o ddifrif.  Mae dysgwyr yn ymwybodol iawn o ddeilliannau gweithgareddau ymglymiad dysgwyr trwy fentrau 'You said, We Did' y coleg.  Mae dysgwyr yn hyderus bod y coleg yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'w mewnbwn.

Mae gan gynrychiolwyr myfyrwyr lefel uchel o hyder personol.  Maent yn ymddwyn mewn modd proffesiynol ac yn cynnig her gadarn i'r uwch dîm rheoli.

Mae uwch reolwyr yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth hefyd i gael gwybod yn uniongyrchol gan fyfyrwyr am yr agweddau cryfach a gwannach ar eu cyrsiau, yn eu barn nhw.  Mae'r coleg yn casglu'r wybodaeth hon ar lefel maes pwnc sector a choleg cyfan ac mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i gynllunio gwelliannau.

## 9 Yr Iaith Gymraeg

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r coleg wedi cynyddu'r asesu yn Gymraeg sydd ar gael i ddysgwyr.  Cwblhaodd dysgwyr 35 o asesiadau yn Gymraeg yn 2012-2013 fel rhan o'u prif faes rhaglen (o gymharu ag 18 yn y flwyddyn academaidd flaenorol).

Mae'r coleg wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy'n gwella'u medrau Cymraeg.  Yn 2012-2013, gwnaeth dysgwyr 105 o asesiadau yn Gymraeg fel rhan o unedau 'Iaith ar Waith' CBAC.  Roedd hyn yn bennaf mewn harddwch, trin gwallt, adeiladu cychod a gofal plant.  Fe wnaeth 253 o fyfyrwyr eraill gwblhau cyrsiau Cymraeg neu gyrsiau

ymwybyddiaeth iaith achrededig.  At ei gilydd, fe wnaeth 57 o ddysgwyr ychwanegol gwblhau'r rhain o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn y coleg yn siarad Saesneg yn unig.  Mae'r coleg yn cynorthwyo staff i wella'u medrau Cymraeg trwy hyfforddiant a thrwy ddarparu adnoddau.  Er enghraifft, mae un aelod o staff mewn TGCh wedi creu ffeiliau sain ar gyfer cyfarchion bob dydd a thermau galwedigaethol.  Mae staff eraill yn rhoi'r fenter hon ar waith ar draws meysydd pwnc eraill ar hyn o bryd.  Mae'r coleg yn darparu posteri ar gyfer staff a dysgwyr hefyd, sy'n arddangos terminoleg alwedigaethol yn Gymraeg.  Mae'r coleg wedi creu tîm Cymraeg i helpu staff i gyflwyno'r iaith Gymraeg ac agweddau ar ei diwylliant yn y cwricwlwm a bodloni gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg.

**Argymhellion:**

A1 Gwella cyfraddau cwblhau dysgwyr
A2 Gwella'r amrywiad mewn cyfraddau llwyddo ar gyfer gwahanol Fedrau Hanfodol
A3 Rhoi newidiadau ar waith yn y cynllun ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu

**Y camau nesaf**

Dylai'r coleg ymateb i'r holl faterion a nodwyd yn y llythyr hwn fel rhan o'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer gwella yn y dyfodol.  Mae'r coleg eisoes wedi nodi ystod o feysydd i'w gwella, gan gynnwys cyfraddau cadw a chyfraddau llwyddiant cyffredinol a gwella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.

Bydd Liam Kealy a Sandra Barnard AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt gyda'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol